# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O.Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes, Llinos M. Huws, Peter Rogers |
| **WRTH LAW**: | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Amgylcheddol a Thechnegol) (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) (CE) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR) (ar gyfer eitem 5)<br>Uwch Beiriannydd – Strwythurau (RT) (ar gyfer eitem 8)<br>Cydlynydd Absenoldeb Salwch (AR) (ar gyfer eitem 6)<br>Swyddog Addysg Uwchradd (JM) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, Raymond Jones, Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYDYN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg), Y Cynghorydd Ken Hughes (Yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd Richard Dew (Yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod a llongyfarchodd y Cynghorydd Jim Evans ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor Sir.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei fod wedi bod mewn cyfarfod o'r Fforwm Iaith Gymraeg yn ddiweddar a bod y fforwm bellach yn bwriadu llunio rhaglen o flaenoriaethau.  Mae cyfarfod o'r Gweithgor Iaith Mewnol hefyd ar y gweill.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers fod y cyfarfod cyntaf o'r Panel Gosod Tai wedi bod yn gynhyrchiol a bod nifer dda wedi mynychu a'i fod yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o'r maes.  Rhaglennwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer mis Gorffennaf.

## 3 COFNODION CYFARFOD 17 EBRILL, 2014

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion –

- Cadarnhaodd y Cadeirydd bod amseriad cyfarfodydd wedi ei godi yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 8 Mai trwy rybudd o gynigiad a'i fod wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am sylw.
- Mewn perthynas â'r cyfarfodydd adolygu gwasanaethau, dywedodd y Cadeirydd fod ganddo restr o naw o gyfarfodydd y byddai'n ei chylchredeg yn y cyfarfod hwn. Gofynnodd i bob Aelod a oedd yn bresennol nodi, erbyn diwedd y cyfarfod hwn, o leiaf un cyfarfod adolygu gwasanaethau y byddent yn dymuno a/neu'n medru eu mynychu.  Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini y byddai'r Aelodau yn cael budd o fynychu'r cyfarfodydd adolygu gwasanaethau gan y byddent yn rhoi iddynt ddealltwriaeth o sut mae'r meysydd gwasanaeth yn gweithio. Byddai'r wybodaeth honno wedyn yn hwyluso eu cyfrifoldebau yn y pen draw fel aelodau sgriwtini.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod o'r Panel Sgriwtineiddio'r Gyllideb a drefnwyd ar gyfer prynhawn dydd Iau, 15 Mai gan nodi y byddai angen Aelod i gymryd lle'r Cynghorydd Jeff Evans nad oedd bellach yn aelod o'r Pwyllgor.

## 4 ENWEBIAD I'R PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd, er sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Rheolydd Sgriwtini mewn perthynas ag enwebu aelod o'r Pwyllgor hwn i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol.

**Penderfynwyd ailbenodi'r Cynghorydd Ann Griffith i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol.**

## 5 EITEM A OHIRIWYD O'R CYFARFOD BLAENOROL - UNED CYNNAL A CHADW ADEILADAU'R GWASANAETH TAI

Cyflwynwyd i'w ystyried ac ar gyfer sylwadau, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â dyfodol yr Uned Cynnal Adeiladau yn y Gwasanaeth Tai (UCA) (y DLO gynt).  Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am yr adolygiad a wnaed o'r UCA a'r opsiynau ynghylch modelau gwasanaeth posib y gellid eu mabwysiadu, ynghyd â gwerthusiad manwl gan Solutions for Housing o'u manteision a'u hanfanteision; cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu gwasanaeth cyfredol; Cynllun Busnes Tymor Canol ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio ac Achos Busnes ar gyfer y model a ffefrir, sef cadw'r gwasanaeth yn fewnol, ynghyd â chrynodeb o'r ymgynghoriad a wnaed gyda thenantiaid ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth trwsio a chynnal.

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol i'w hystyried.

Rhoddodd yr Aelodau sylw gofalus i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn weledol a'r wybodaeth yn yr adroddiad ysgrifenedig. Yn y drafodaeth helaeth a gafwyd wedyn codwyd y materion isod fel rhai yr oeddent yn dymuno rhagor o eglurhad arnynt.

•Mynegwyd pryder fod hysbyseb ddiweddar am swydd Rheolydd Trosiannol ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio, ac yn enwedig y fanyleb ar gyfer y swydd honno, yn cymryd yn ganiataol, fe ymddengys, y byddai'r opsiwn a argymhellir yn cael ei gymeradwyo a bod y camau a gymerwyd yn rhoi'r agraff bod y mater hwn wedi ei benderfynu ymlaen llaw cyn iddo gael ei gymeradwyo'n ddemocrataidd. Awgrymwyd bod hynny'n tanseilio prosesau llywodraethiant yr Awdurdod mai Aelodau ddylai yrru materion ac nid Swyddogion. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai trwy ddweud mai profi'r farchnad oedd hi wrth gyhoeddi'r hysbyseb ac y byddai angen Rheolydd i lenwi'r swydd wag yn sgil ymadawiad y swyddog blaenorol waeth pa opsiwn y penderfynir ei weithredu.
•Er yn cydnabod yr angen i edrych yn ofalus ar effeithlonrwydd y gwasanaeth trwsio, roedd pryderon am ddiswyddiadau posib a'r posibilrwydd y byddai'r £250K a ragwelir fel arbedion trawsnewid yn mynd ar gostau diswyddo. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai nad oedd strwythur staffio wedi ei gwblhau hyd yma a'i fod yn anochel y byddai arbedion yn sgil cyfuno swyddi. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau diswyddo yn sgil hynny yn cael eu talu o'r Cyfrif Refeniw Tai a bydd arbedion eraill yn cael eu cynhyrchu yn sgil rhedeg gwasanaeth yn fwy effeithlon.
•Cyfeiriwyd at wahanol fathau o gontractau a nodwyd fel rhai posib dan opsiwn 2.1.3 - allanoli ochr y contractwr yn unig i gontractwr allanol, fel y fformat modern ar gyfer dyrannu gwaith sy'n tynnu cyfrifoldebau ar y safle oddi ar y cleient, ac awgrymwyd nad oedd yr opsiwn 2.1.2 a ffefrir yn ymgorffori'r trefniadau hyn yn ddigonol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod yr elfennau contract hyn yn dechrau cael eu cyflwyno a'u gweithredu a bod gwaith wedi ei wneud yn y cyswllt hwn. Y bwriad yw y bydd y prosiect trawsnewid ar gyfer yr UCA yn rhoi'r gwasanaeth trwsio mewn sefyllfa gref i roi prawf ar y farchnad mewn 3 blynedd.
•Mynegwyd pryder ynghylch y posibilrwydd y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Tai efallai yn dymuno ystyried allanoli'r gwasanaeth cyfan pe na bai'r ailstrwythuro yn arwain at gyflawni'r lefelau perfformiad angenrheidiol h.y. allanoli elfennau cleient a chontractwr. Mynegwyd y farn bod hynny'n risg rhy fawr o ran colli'r gwasanaeth cyfan ac y dylai'r Gwasanaeth fod yn mynd ar drywydd opsiwn sy'n cynnig mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd o'r cychwyn cyntaf hyd yn oed os yw hynny'n golygu contractio allan ar ryw ffurf.
•Awgrymwyd nad oedd yr arbedion trawsnewid a ragwelwyd o £250k ar drosiant blynyddol o oddeutu £5m yn uchel, a bod yna gwmnïau allanol a fedr gynnig yr arbenigedd sydd raid wrtho ar yr ochr contractwr ac a fedrai foderneiddio'r gwasanaeth yn y ffyrdd yr oedd eu hangen ar yr un pryd h.y. opsiwn 2.1.3 - Allanoli'r ochr contractwr yn unig i gontractwr allanol. Awgrymwyd Opsiwn 2.1.3 fel model ymarferol ar gyfer y tymor hir a hefyd yn seiliedig ar y data yn y matrics sgorio mewn perthynas â Gwerth Am Arian (GAA). Nodwyd nad oes raid i'r Awdurdod fod yn gyflogwr i fedru darparu gwasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y byddai Opsiwn 2.1.3 yn golygu colli rheolaeth dros yr elfen contractwr gan roi'r gost o foderneiddio'r gwasanaeth a buddsoddi yn y staff ar yr awdurdod. Byddai hefyd yn groes i ddymuniadau'r tenantiaid. Dywedodd ei bod yn

cefnogi casgliadau'r gwaith a wnaed yn seiliedig ar y matrics sgorio a bod y Cynllun Busnes ar gyfer y Tymor Canol yn mynnu ar 21 o amodau o ran sicrhau gwerth am arian.
•Yn ogystal, gwyntyllwyd cyfuniad o opsiwn 2.1.2 ac opsiwn 2.1.5 (allanoli rhannau o'r gwasanaeth) fel ffordd ymlaen gan ddibynnu ar ba elfennau o'r gwasanaeth sy'n addas i'w hallanoli. Er mwyn penderfynu pa agweddau ar y gwasanaeth y gellid eu hallanoli, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y byddai astudiaeth gwerth am arian yn cael ei chynnal ar wahanol feysydd. Bydd pob agwedd ar y gwasanaeth yn cael ei herio trwy'r Cynllun Busnes.
•Oherwydd maint a chymhlethdod y mater a'r ystyriaethau cysylltiedig cynigiwyd hefyd y dylai'r Cyngor Sir llawn benderfynu'r mater.

**Ar ôl rhoi sylw i'r mater, penderfynwyd nodi nad oes raid i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar opsiwn, ond gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith - i gynnig trafodaeth yn y Cyngor llawn cyn penderfynu'r mater. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad ac wedi diystyru rhai o'r opsiynau ac wedi ystyried rhinweddau: Opsiwn 2.1.3 (allanoli'r ochr contractwr yn unig i gontractwr allanol) a chyfuniad o opsiynau 2.1.2 (cadw'r gwasanaeth yn fewnol ond cyfuno'r swyddogaethau cleient a chontractwr a moderneiddio'r gwasanaeth) a 2.1.5 (allanoli rhannau o'r gwasanaeth) ar gyfer trafodaeth bellach yn y Cyngor llawn.**

## 6 MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes a oedd yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol yn y meysydd Rheoli Pobl, Rheoli Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmer ar ddiwedd Chwarter 4 2013/14 fel y crynhowyd hynny yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.

Adroddodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes i'r Pwyllgor ar welliannau a / neu ddirywiad mewn perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol a, lle 'roedd hynny'n berthnasol, o gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2012/13. Tynnodd sylw hefyd at y camau cywiro / lliniarol a oedd wedi cyfrannu at y cynnydd. Gwnaed sylwadau hefyd ar y perfformiad corfforaethol o gymharu â'r dangosyddion cenedlaethol lle 'roedd hynny'n berthnasol.

Yn y drafodaeth ddilynol cyflwynodd yr Aelodau sylwadau ar y materion a ganlyn –

• Diffyg gwybodaeth ariannol ar gyfer Chwarter 4 - cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio busnes fod trafodaethau a gwaith yn digwydd o ran gwireddu'r gofyn bod raid adrodd ar y flwyddyn gyfredol.
• Bwriadau o ran adolygu'r dangosyddion ar gyfer 2014/15 – cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod Cerdyn Sgorio'n cael ei fireinio ar gyfer adrodd ar y flwyddyn gyfredol a bod gwaith wedi cychwyn i nodi dangosyddion ar gyfer eu tracio. Cynhelir gweithdai yn y pythefnos nesaf i ddwyn sylw at y dangosyddion mwyaf arwyddocaol.
• Absenoldeb salwch a'r tanberfformiad mewn perthynas â chynnal cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith. O gofio bod cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith wedi eu nodi

fel teclyn i reoli absenoldeb salwch pwysleisiwyd y disgwylir i'r perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn fod yn 100%.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymuned adroddiad yn benodol ar berfformiad mewn perthynas â'r Gwasanaethau Oedolion, a chan gyfeirio at y ganran o ofalwyr oedolion a gafodd adolygiad / asesiad o'u hanghenion. Dywedodd bod yr Adran yn uchelgeisiol iawn o ran ei wasanaethau a dangosyddion i ofalwyr a gellir cymryd sicrwydd o'r ffaith ei fod yn perfformio'n sylweddol well yn hyn o beth na'r norm yn genedlaethol. Mae'r broses yn cael ei hadolygu. Bu rhaglenni hefyd yn parhau drwy gydol y flwyddyn gyda grwpiau gofalwyr i adolygu'r mathau o wasanaethau y mae defnyddwyr eu hangen ac a fwriadwyd i ychwanegu gwerth. O ran absenoldeb salwch cadarnhaodd bod rheolwyr ar draws yr Adran wedi cael cais i adolygu a mireinio trefniadau absenoldeb salwch er mwyn cael cysondeb drwy'r Adran gyfan. Bu mewnbwn y cydlynwr absenoldeb salwch corfforaethol o ran hwyluso'r adroddiadau a gwybodaeth i reolwyr yn hynod o werthfawr. Roedd yn rhagweld y byddai ffigyrau perfformiad gwell yn y dangosyddion hyn y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) y bu gwelliant o bron i 15% mewn lefelau absenoldeb salwch erbyn diwedd y flwyddyn ariannol o gymharu â data cyfatebol yn 2012/13 oedd yn golygu 2.28 dydd ar gyfer pob Gweithiwr Amser Llawn cyfartaleddog. Roedd y perfformiad gyda chynnal cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith hefyd wedi gwella gyda'r ganran yn cynyddu o 34% (Ch1) i 59% ar ddiwedd Ch4. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau bod yr UDA wedi gofyn am gynllun gwella absenoldeb salwch tair blynedd ac mae'r Adain Adnoddau Dynol yn y broses o'i lunio. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y bydd swydd y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol yn dod i ben ym Mawrth 2015 a bod yr adnodd hwn wedi bod yn greiddiol gyda chefnogi gwasanaethau ar draws y Cyngor i reoli a lleihau lefelau absenoldeb salwch.

Dywedodd y Cydlynydd Absenoldeb Salwch mai'r bwriad oedd, yn amodol ar gael caniatâd yr UDA, i'r cynllun gwella tair blynedd gynnwys y mesurau canlynol-

- Targedau newydd o fewn gwasanaethau. Bydd y targed corfforaethol yn parhau yn 10 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.
- Polisi absenoldeb salwch diwygiedig lle y bydd unrhyw dri absenoldeb yn gyffredinol (yn hytrach nag o fewn cyfnod o ddau fis) yn golygu y ceir adolygiad presenoldeb. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r mater o absenoldebau tymor byr sydd wedi eu nodi fel rhywbeth sy'n fwy amlwg nag absenoldebau tymor hir.
- Bydd y Panel Galluogrwydd Salwch yn cyfarfod er mwyn brysio'r broses i gael adolygiad achos.
- Meddygfeydd absenoldeb salwch i'w cynnal gydag adrannau y mae eu perfformiad yn parhau yn is na'r targed.
- Gwneud gwell defnydd o System Rheoli Gwybodaeth Northgate i nodi patrymau o ran absenoldeb salwch.

O ran cynnal cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith roedd y Swyddog am bwysleisio y gellir priodoli'r targed oedd wedi ei fethu i'r ffaith bod yr Awdurdod wedi dechrau o sylfaen isel o 32% yn Ch1. Cafwyd gwelliant o ran perfformiad yn Ch4 ac mae'r adran AD yn hyderus y byddir yn cyfarfod â'r targed ar ddiwedd Ch1 2014/15.

Roedd y Pwyllgor yn derbyn yr eglurhad yng nghyswllt y targed a fethwyd ar gyfer cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a cheisiwyd cael eglurhad pellach o sawl cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith sy'n cael eu cynnal o fewn y cyfnod amser 5 diwrnod ac a yw adrannau'n ymgymryd â'r dadansoddiad hwn.  Nodwyd hefyd y mater y byddai'r cyllid yn dod i ben yn 2015 ar gyfer swydd y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol ac roedd yr arian hwnnw yn fenter werthfawr o fuddsoddi i arbed.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn fwriad bod y Pwyllgor yn sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i edrych ar y mater o absenoldeb salwch fel adlewyrchiad o'i ddiddordeb arbennig yn y maes hwn a'i fwriad i fonitro'r agwedd hon o berfformiad yn agos. Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) y byddai'n ddoeth aros hyd nes bod yr UDA yn rhoi cyfeiriad o safbwynt y cynllun gwella absenoldeb salwch tair blynedd, ac fe ddisgwylir hynny ym mis Mehefin.  Nododd hefyd na fydd y wybodaeth ar gyfer Ch1 2014/15 ar gael hyd fis Gorffennaf ac y bydd yn rhaid trefnu'r cyfarfod o'r Panel i gydfynd gyda'r amser pryd y bydd y data ar gael.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch4 2013/14 a'r sylwadau a wnaed arno.**
- **Sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini o'r Pwyllgor i archwilio ac i fonitro lefelau absenoldeb salwch a sut y cant eu rheoli o fewn yr Awdurdod ac i gynnwys y Cynghorydd G.O. Jones fel Cadeirydd, Cynghorydd Jim Evans a'r Cynghorydd Peter Rogers ynghyd ag un Aelod arall.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gadarnhau'r pedwerydd Aelod o'r Panel yn dilyn ymgynghori gyda'r Aelodau ac i gydlynu cyfarfodydd y Panel.**

## 7 TREFNIADAU DIOGELU PLANT MEWN YSGOLION

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn nodi'r ffyrdd y mae gofynion mewn perthynas â diogelu plant yn cael eu bodloni o fewn ysgolion yr Awdurdod ynghyd â chynlluniau ar gyfer hyfforddiant parhaol yn y maes hwn.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a cheisiwyd cael eglurhad o rai materion mewn perthynas â'r data o safbwynt digwyddiadau o fwlio a'r mathau o fwlio a gwaith siecio DGD, ac ymatebodd y Swyddog Ysgolion Uwchradd i'r pwyntiau hynny.  Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y tair ysgol gynradd nad oeddent eto wedi dychwelyd yr Adroddiad Blynyddol ar ddiogelu i'r Corff Llywodraethol yn gwneud hynny er mwyn cael sicrwydd nad oedd unrhyw faterion diogelu allai godi.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 8 CAIS SGRIWTINI - CAU'R B4419 YM MHENTRE BERW

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd a Thechnegol) mewn ymateb i gais parhaol gan y Cynghorydd Peter Rogers ac a sancsiynwyd gan y Pwyllgor, am adolygiad sgriwtini o gau'r B4419 ym Mhentre Berw ym mis Tachwedd 2013 a Llangaffo yn Rhagfyr 2006/Ionawr 2007 ar "sail gwersi i'w dysgu".

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd a Thechnegol) grynodeb o gynnwys yr adroddiad a chyfeiriodd at natur y ddau ddigwyddiad, y gwaith a olygodd hynny a sut y gwnaed y gwaith hwnnw, y cyswllt a fu gyda phartïon eraill lle'r oedd hynny'n berthnasol a'r cyfathrebu a wnaed gyda'r gymuned drwy gyfryngau cymdeithasol gyda hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn, ynghyd â'r costau adfer i'r Awdurdod. Rhoddwyd cyflwyniad gweledol hefyd i'r Pwyllgor oedd yn dangos y gwaith a wnaed ym Mhentre Berw wedi'i gwlfert ddisgyn a'r amgylchedd y gwnaed y gwaith ynddo. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd a Thechnegol) mai'r blaenoriaethau oedd diogelwch, cwblhau'r gwaith cyn gyflymed â phosibl, yn cael ei ddilyn gan y costau a chadarnhaodd y byddai'n delio â'r mater mewn dull tebyg i'r hyn a wnaed pe bai'r un sefyllfa'n digwydd eto.

Dywedodd yr Aelod ei fod wedi gofyn am i'r mater o gau'r ffyrdd gael eu sgriwtineiddio am y rhesymau a ganlyn –

- Yr effaith niweidiol a gafodd cau'r ffordd am gyfnod gweddol hir o amser ar fusnes y pentref a gollodd hyd at £200 y dydd mewn refeniw a'r anghyfleuster i'r gymuned gyfan oherwydd y tripiau dargyfeirio yr oedd yn rhaid i breswylwyr ei wneud i gael mynediad.
- Cafodd y rhwystrau ffordd eu symud yng nghanol y nos gan rai nad oedd ganddynt awdurdod i wneud hynny.
- Nad oedd gwersi wedi eu dysgu pan gaewyd y ffordd yn Llangaffo yn 2006/07 o ran ymgynghori ar gau'r ffordd a pha mor hir y byddai hynny'n parhau.
- Gosod system un ffordd a gafodd ganlyniadau difrifol wedi hynny.
- Costau'r gwaith i'r Awdurdod Priffyrdd oherwydd y dull y cafodd ei wneud a hefyd arwyddion a gollwyd.
- A allai'r digwyddiad ym Mhentre Berw fod wedi cael ei drin mewn ffordd wahanol fyddai wedi lleihau'r tarfu a lleihau'r costau. Awgrymwyd y gellid bod wedi gwneud arolwg camera i asesu maint y difrod ac os yn bosibl, fe allai'r darnau fod wedi cael eu clirio er mwyn caniatáu rhoi darn o beipen i mewn fel cwrs canolog fel y gallai contractwr mawr wedyn ddelio â'r mater mewn ychydig ddiwrnodiau. Awgrymwyd bod angen dysgu gwersi o ran agwedd a phe bai digwyddiad tebyg yn digwydd eto fe ddylid ystyried cynnal arolwg priodol o'r difrod i asesu a ellid ei reoli dros dro cyn cyflogi contractwr mawr i ddatrys y broblem yn sydyn.
- Y gwersi y gellid eu dysgu hefyd mewn perthynas â gofal y cwsmer. Er enghraifft, roedd yr oedi a'r dryswch ynglŷn ag agor y ffordd ar ddydd Sadwrn yn dilyn cwblhau'r gwaith wedi golygu bod siop y pentref mewn risg o golli ei fasnach Dydd Sul yn ogystal.

Ymatebodd y Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd gan egluro iddynt ddod i benderfyniad nad oedd arolwg camera yn angenrheidiol o ystyried bod maint y difrod i'w weld yn glir o ben gwaelod y beipen. Roedd rhan o'r traen cerrig wedi

disgyn ac roedd yn rhaid ei newid a byddai wedi bod yn beryglus i ddisgwyl i unrhyw un i fynd i mewn i'r traen i geisio symud y cerrig oedd wedi disgyn. Byddai'n rhaid i bwy bynnag a wnâi'r gwaith fod wedi cloddio i ddyfnder o tua 5.5.m a byddai hynny wedi gofyn am i'r ffordd gael ei chau. Yr ystyriaethau pennaf oedd diogelwch. Byddai cynnal arolwg camera a gwthio peipen wedi golygu y byddai'n rhaid cael contractwr mawr a chloddio twll mwy gyda'r posibilrwydd o gael mwy o darfu a chostau. Cododd problemau gyda'r system unffordd oherwydd nad oedd rhai gyrwyr yn cymryd sylw ohono ac oherwydd nad oedd unrhyw un i orfodi'r mesur ac wedyn fe arweiniodd hynny i orfod cau'r ffordd. Roedd y costau yn rhannol oherwydd y sifftiau dwbl y gofynnwyd i'r contractwr eu gweithio er mwyn cyflymu'r dasg fel y gallai'r ffordd gael ei hagor yn gynt.

Dywedodd Aelod arall o'r Pwyllgor ei fod yn cytuno gyda'r Swyddogion ynglŷn â'r ffordd yr aethpwyd o gwmpas datrys y broblem a hefyd gyda'r ffordd y gwnaed y gwaith, ac roedd o'r farn bod y gwaith wedi ei gwblhau i safon uchel. Roedd yn cydnabod yr effeithiau a gafwyd ar y gymuned ond dywedodd na allai weld sut y gallai'r mater fod wedi ei drin mewn ffordd wahanol nac yn gynt nag a wnaed.

Nododd y Pwyllgor y pryderon a godwyd gan yr Aelod Lleol ynglŷn â'r effaith a gafodd cau'r ffordd ar breswylwyr a busnesau lleol ynghyd â safbwyntiau proffesiynol y Swyddogion o safbwynt yr agwedd a gymerwyd at y gwaith ac yr ymgymerwyd ag agweddau technegol y gwaith. Nodwyd hefyd ar gyfer y dyfodol bod y defnydd a wnaed o gyfryngau cymdeithasol wedi bod yn effeithiol yn rhoi rhybudd cynnar i bobl y byddai'r ffordd ar gau.

**Penderfynwyd nodi safbwyntiau'r Aelod a'r Swyddog fel y cawsant eu cyflwyno fel clo i'r mater hwn.**

## 9 BLAENRHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd fersiwn gyfredol y Flaenraglen waith a'i nodi.

Tynnodd y Rheolwr Sgriwtini sylw at y canlynol –

- Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllideb am 2 p.m. Dydd Iau 15 Mai, 2014
- Pwysau ar y Flaenraglen Waith o ran capasiti.
- Cyfarfod o Gadeiryddion/Is-Gadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr i ystyried gwell integreiddiad o Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini ac i edrych ar ffyrdd o gael gwared o ddyblygu gwaith gan Aelodau a Swyddogion.

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

**Y CYNGHORYDD R MEIRION JONES**
**CADEIRYDD**